



**IS-BWYLLGOR CYLLID A RHEOLI
DYDD MAWRTH 31 AWST 2021
ZOOM, 7.00 yh**

COFNODION

CADEIRYDD: Kathryn Jones **IS=GADEIRYDD:** Katie Davies

PRESENNOL: Caryl Haf (Is-Gadeirydd y Cyngor), Kathryn Jones (Cadeirydd Is-Bwyllgor), Malcolm Thomas (Arbenigwr Pwyllgor), Katie Davies (Cadeirydd y Cyngor), Aled Thomas (Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata, Clare James (Cadeirydd Materion Gwledig), a Dafydd Jones (Cadeirydd Pwyllgor yr Adeilad), Ceri Llwyd (Ashmole & Co), Sian Healey (Is-Gadeirydd Pwyllgor Cystadlaethau), Steve Hughson (Arbenigwr Pwyllgor).

HEFYD YN BRESENNOL: Rhodri Lewis, (CFFI Cymru) a Mared Jones (CFFI Cymru).

FM/57/2021 CROESO A CHYFLWYNIADAU
Agorodd Kath y cyfarfod drwy estyn croeso cynnes i bawb.

FM/58/2021 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Katie Court (Cadeirydd Pwyllgor Cystadlaethau), Nerys Lewis (Is-Gadeirydd Pwyllgor Rhyngwladol), Elin Rattray (Cadeirydd Fforwm Ieuenctid), Niall Evans (Cadeirydd Pwyllgor Rhyngwladol)

FM/59/2021 I GADARNHAU COFNODION Y PWYLLGOR DIWETHAF – 6 GORFFENNAF
Cafodd y cofnodion eu cylchredeg cyn y cyfarfod ac fe gytunwyd gan y rhai'n bresennol i'w cymeradwyo.

Cynigydd: Malcolm Thomas
Eilydd: Katie Davies

FM/60/2021 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

FM/53/2021 c) Yn ystod y cyfarfod diwethaf cafodd y Pwyllgor wybod fod Barclays wedi gwrthod y cais i agor cyfrif i gronfa Terrence Meredith, a bod pwyllgor cyllid CAFC wedi cytuno nad oeddynt eisiau parhau i gynnal y £155,000 ddim rhagor. Gofynwyd os oedd Steve Hughson wedi bod mewn cysylltiad gyda Sara Llewelyn Jones, cyfreithiwr y teulu, ers y cyfarfod diwethaf.

'Doedd Steve Hughson heb dderbyn dim byd gan Sara Llewelyn Jones ers y cyfarfod diwethaf ac fe gytunwyd y dylai CFFI Cymru ddanfon llythyr i ddweud y byddai'r arian a dderbynwyd yn cael ei gynnal mewn cronfa gyfyngedig, a hefyd rhoi cefndir pam na fu'n bosibl i agor cyfrif.

FM/61/2021

GOHEBIAETH

Ni dderbynwyd dim gohebiaeth.

FM/62/2021

ADRODDIAD CYLLID

a) Grantiau

Mae'r 2il ran o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru wedi cael ei dderbyn yn llawn sydd o gwmpas £7,633 ac i'w ddefnyddio tuag at gostau gweithredol sef cyflogau staff, biliau gwaanaethau, cyfrifiaduron newydd a phaciau ailgychwyn newydd i CFFI Cymru a'r Siroedd.

b) Incwm / Gwariant

Fe gafodd y sgrin ei rhannu i aelodau'r pwyllgor er mwyn iddynt gael gweld yr Incwm a'e Gwariant ers 1af Ebrill 2021. Dangoswyd balans y cyfrifon banc fel yr oeddynt ar 31/08/2021 ac fe esboniodd Rhodri Lewis er bod y cyfrif banc yn edrych yn iach iawn, 'roedd rhai anfonebau eto i'w derbyn.

Busnes C/A: £243,478.60

CFFI Cymru 3181: £125,253.12

Cymru Cyf 3202: £294,159.57

Cafodd rhai cwestiynau eu gofyn ynglyn a'r incwm a'r gwariant, a rhoddwyd atebion i'r rhain. Nododd Ceri Llwyd fod Grant Iaith Gymraeg y Llywodraeth ddim yn dangos yn y Cyfrifon 20-21 ac fe gaiff Rhodri Lewis olwg ar hyn a thrafod gyda Ceri Llyd. Nodwyd hefyd fod rhai o ddyledwyr wedi eu darganfod ac fe edrychir i mewn i hyn.

FM/63/2021

ADRODDIAD GAN GYFARWYDDWR CFFI CYMRU

a) Diweddariad Staff

O 1af Medi – nodwyd y canlynol:

Mared Jones, Angharad Thomas a Helen Evans – 1 diwrnod yr wythnos

Rhodri Lewis – 2 ddiwrnod y wythnos tan 6ed Medi, wedyn 1 diwrnod yr wythnos.

Mae Rhianwen Jones wedi ymuno a CFFI Cymru ac yn gweithio 5 diwrnod yr wythnos fel Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol.

Mae Huw Jones wedi gorffen gyda CFFI Cymru ar 30ain Awst.

Mae swyddi Swyddog Marchnata a Materion Gwledig a Swyddog Ieuenctid wedi eu hysbysebu eto gyda dyddiad cau o 6ed Medi.

Nododd Katie Davies fod Prif Weithredwr newydd wedi ei benodi ond ni ellir ei ddatgan eto. Nodwyd y byddai cyhoeddiad di-oed yn cael ei wneud o fewn wythnos.

b) Diogelu

Mae trafodaethau wedi eu cael gyda FfCCFFI ac mae cwrs diogelu lefel 3 i'w gynnal ar 2fed Medi yn Llanfair ym Muallt. Fe fydd yna hefyd ddwy sesiwn rithiol o'r cwrs. Mae FfCCFFI hefyd yn fodlon i drefnu DBS i aelodau staff newydd.

c) Senedd Ieuenctid Cymru

Nododd Mared Jones fod CFFI Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i ymuno a Senedd Ieuenctid Cymru.

d) CCB

Mae CCB CFFI Cymru yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn 18fed Medi 2021 ar Faes y Sioe, Llanelwedd. Fe fydd y cyfarfod yn y bore gyda cinio ar gael yn y prynhawn yn dilyn y cyfarfod.

e) Glanhau'r Swyddfa

Nododd Mared Jones fod angen glanhau ar adeilad CFFI Cymru a bod hyn wedi cael ei wneud y tu mewn a thu allan, gyda'r costau yn cael eu cyfro gan grinfa Adferiad Cymru.

FM/64/2021

I GYMERADWYO CYFRIFON DRAFFT 20-21

Nododd Ceri Llwyd fod y rhan fwyaf o'r cyfrifon wedi'u cwblhau, gyda adroddiad yr ymddiriedolwyr i ddilyn nes ymlaen. Nodwyd fod y ffigyrau wedi eu terfynu, gyda grantiau yn yr incwm yn fwy na'r gwariant o gryn dipyn.

Derbynwyd £200,000 yn fwy o grantiau i'w gymharu a beth gafwyd cyn Covid, y rhain gan Cronfa Adferiad Cymru, WCVA, NVYA a hefyd cronfa Cynllun 'Furlough'.

Nododd Ceri Llwyd mae'r unig bryder oedd o gwmpas y Cynllun 'Furlough' a dderbynwyd a hefyd grant arall i gyfro costau staff. Awgrymwyd y dylai hyn gael ei ystyried yn fwy manwl, i arbed cwestiynau gan y Comisiwn Elusennol.

Cafwyd trafodaeth ynglyn ag ymddiriedolwyr CFFI Cymru, gyda llawer yn dweud fod rhai ar y rhestr ddim yn siwr o'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr. Cytunwyd y byddai trafodaeth ynglyn a hyn yn digwydd yng nghyfarfod nesaf o Bwyllgor Cyllid a Rheoli.

Diolchodd Kathryn Jones i Ceri Llwyd am ei holl waith caled gyda Cyfrifon CFFI Cymru.

FM/65/2021

EITEMAU AGENDA & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Ni drefnwyd dyddiad i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd y byddai sefyllfa'r ymddiriedolwyr yn un o eitemau'r agenda.

FM/66/2021

UNRHYW FUSNES ARALL

a) Nododd Malcolm Thomas mae dyma fyddai Cyfarfod Pwyllgor olaf iddo ef a Steve Hughson oni bai iddynt gael eu enwebu eto ar y pwyllgor. Diolchodd yr aelodau i gyd am y croeso a gawsant ac fe 'roedd wedi bod yn bleser i fod ar y pwyllgor. Nododd Malcolm Thomas hefyd y byddai'n hapusi barhau, ond os na fyddai, dymunai pob lwc i bawb yn y flwyddyn nesaf.

Dymunodd Steve Hughson eilio beth ddywedodd Malcolm Thomas ac fe fyddai ef hefyd yn hapus i ddal ymlaen gan roi ei gefnogaeth 100%. Dymunwyd yn dda i bawb a nododd tra fyddai ef yn Brif Weithredwr CAFC, y byddai CFFI Cymru yn cael eu cefnogaeth llawn. Dymunodd Steve Hughson hefyd ddiolch i Kathryn Jones am ei holl waith yn ystod ei hamser fel Cadeirydd Cyllid a Rheoli.

Diolchodd Kathryn Jones i Steve Hughson a Malcolm Thomas am eu gwaith a dymunodd ddiolch i bawb am eu croeso ar y pwyllgor, ac fe 'roedd wedi bod yn wych i gael cyfle i roi rhywbeth yn ol i'r mudiad. Dymunodd Kathryn pob lwc i bawb.

Diolchodd Katie Davies yn fawr i Kathryn Jones am ei gwaith gan nodi cymaint a gafodd ei wneud tu ôl i'r lleri i CFFI Cymru yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd Cyllid a Rheoli.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, cafodd y cyfarfod ei gau am 20.26.

Llofnod

Dyddiedig.....